# Hysbysiad o Gynnig

## GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
## (WELL STREET, BWCLE)
## (GWAHARDD GYRRU) (AC EITHRIO AR GYFER A BEICWYR )
## 202X

Mae Cyngor Sir y Fflint, yn cynnig gwneud Gorchymyn, dan Adran 1, 2 a 3 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a phob pŵer arall sy'n galluogi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 y Ddeddf, yn bwriadu gwneud y Gorchymyn a'i effaith fydd:-

1) Gwahardd unrhyw gerbyd modur, ac eithrio beiciau pedal, rhag mynd ar hyd Well Street, Bwcle, o bwynt tua 220 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Bryn Awelon, Bwcle.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â chynllun yn dangos y darnau o ffordd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn berthnasol iddynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell Bwcle, y Ganolfan Siopa, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener, 16 Ionawr 2026 neu drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/JB/WS.

Dyddiedig yr 19 diwrnod o fis Rhagfyr 2025

KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
yr Wyddgrug.
CH7 6LG

**DYDDIEDIG XX XX 202X**

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
# (WELL STREET, BWCLE)
# (GWAHARDD GYRRU) (HEBLAW AR GYFER BEICIAU PEDALAU)
# 202X


**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog**

**(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**

**Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug,**

**Alltami,**

**Yr Wyddgrug.**

**CH7 6LG**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**(WELL STREET, BWCLE)**

**(GWAHARDD GYRRU) (AC EITHRIO AR GYFER A BEICWYR )**

**202X**

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adran 1, 2 a 3 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf Gorchymyn 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Gwahardd unrhyw gerbyd modur, ac eithrio beiciau pedal, rhag mynd ar hyd Well Street, Bwcle, o bwynt tua 220 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Bryn Awelon, Bwcle.

2. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 1 y Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag peri i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y rhan honno o'r ffordd a nodir yn yr Erthygl, os yw'r cerbyd:-

a) Am gael mynediad i eiddo cyfagos;
b) Yn gerbyd y Gwasanaeth Tân, Ambiwlans neu'r Heddlu pan fo argyfwng;
c) Yn feic pedalau, nad yw'n gerbyd modur;
d) Yn ymwneud â'r canlynol-
i) Cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu rhan o'r ffordd a nodir;
ii) Gosod, codi, addasu neu drwsio ar dir cyfagos i'r darn o ffordd a nodir, mewn perthynas ag unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw linell o unrhyw rwydwaith cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003;
iii) Gweithredoedd adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
e) Gwasanaethu ar ran awdurdod lleol, cwmni gwasanaethau cyhoeddus neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
f) Dylid defnyddio'r cerbyd at ddibenion danfon neu gasglu pecynnau post fel y diffinnir yn Adran 125 Deddf Gwasanaethau Post 2000.

3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a roddir gan unrhyw Reoliad a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac nid yn rhanddirymiad iddynt.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli’r Gorchymyn hwn gan ei bod yn berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar XX XX 202X a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Well Street, Bwcle) (Gwahardd Gyrru) (Ac Eithrio Ar Gyfer A Beicwyr) 202X

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** **)**
**CYNGOR SIR Y FFLINT** **)**
yn y fan hon )
ar XX XX 202X )
yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD**

**UWCH GYFREITHIWR**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**(WELL STREET, BWCLE)**
**(GWAHARDD GYRRU) (AC EITHRIO AR GYFER A BEICWYR )**
**202X**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG GWNEUD Y GORCHYMYN

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu  cyflwyno cyfyngiad Gwahardd Gyrru, ac Eithrio Beiciau Pedal ar Well Street, Bwcle.

Bydd cyfyngiad ar draffig trwodd ar Well Street, ac eithrio beiciau pedal a cherddwyr,  o bwynt oddeutu 220 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Bryn Awelon, Bwcle.


Cynigir y cyfyngiad hwn mewn ymateb i'r datblygiad tai newydd, a'i fwriad yw atal gorddefnyddio'r rhwydwaith lonydd gwledig cyfagos. Bydd yn helpu i reoli traffig yn fwy effeithiol, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn annog dulliau teithio llesol megis cerdded a beicio.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig yr 19 diwrnod o fis Rhagfyr 2025



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
yr Wyddgrug.
CH7 6LG




## Notes:

Gwahardd unrhyw cerbyd modur heblaw am y rhai sydd angen mynediad a beicwyr i yrru ar hyd cyfan Well Street, Bwcle.

To prohibit any Motor Vehicle Except for pedal cyclists from proceeding through Well Street, Buckley.


CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

Alltami Depot, Mold Road
Alltami, Mold. CH7 6LG

STREETSCENE



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.


| | |
|---|---|
| DRAWN BY: | NGW |
| CHECKED BY: | LS |
| SCALE: | NTS @ A3 |
| NAT. GRID REF: | 326746 363451 |

| CONSTRUCTION | WORKING | PRELIMINARY |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Well Street, Buckley, Bwcle

GWAHARDDIAD GYRRU AC EITHRIO CERDDWYR A BEICIWYR

PROHIBITION OF DRIVING EXCEPT FOR PEDESTRIANS AND CYCLISTS

DRAWING NUMBER

| HT/25/WSB | 201 | P1 |
|---|---|---|